

Tolvaptan i drin clefyd yr arenau amlgodennog dominyddol awtosomaidd

Hydref 2015

Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Argymhellir [tolvaptan](#) (Jinarc) fel triniaeth bosibl i bobl sydd â [chlefyd yr arenau amlgodennog dominyddol awtosomaidd](#) os o dan yr amgylchiadau canlynol:

- mae ganddynt glefyd cronig yr arenau cam 2 neu 3 ar ddechrau'r driniaeth ac
- mae tystiolaeth bod y clefyd yn datblygu'n gyflym.

Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Os oes gennych glefyd yr arenau amlgodennog dominyddol awtosomaidd sy'n datblygu'n gyflym gyda chlefyd cronig yr arenau cam 2 neu 3 ar ddechrau'r driniaeth, a bod eich meddyg o'r farn mai tolvaptan yw'r driniaeth gywir i chi, dylech allu cael y driniaeth ar y GIG.

Dylai tolvaptan fod ar gael ar y GIG o fewn tri mis i gyhoeddi'r canllawiau.

Os nad ydych yn gymwys i gael y driniaeth a ddisgrifir uchod, dylech allu parhau i gymryd tolvaptan nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ei bod yn iawn i chi roi'r gorau i'w gymryd.

Pam bod NICE wedi dweud hyn?

Mae NICE yn edrych ar lwyddiant triniaethau mewn perthynas â'u cost o gymharu â thriniaethau eraill sydd ar gael ar y GIG.

Argymhellwyd tolvaptan oherwydd bod y buddiannau i gleifion yn cyfiawnhau ei gost.

Y cyflwr a'r driniaeth (triniaethau)

Mae clefyd yr arenau amlgodennog dominyddol awtosomaidd yn gyflwr a etifeddir sy'n achosi i systiau (sachau bach llawn hylif) i dyfu yn yr arenau. Dros amser mae'r systiau hyn yn tyfu ac yn effeithio ar sut mae'r arenau'n gweithio.

Mae tolvaptan (Jinarc) yn arafu twf systiau ac yn helpu'r arenau i weithio'n iawn.

Gall NHS Choices (www.nhs.uk) fod yn fan da i gael gwybod mwy.

Ffynonellau cyngor a chymorth

- Cymdeithas Cleifion Arenau Prydain, 01420 541 424, www.britishkidney-pa.co.uk
- Kidney Research UK, 0845 070 7601, www.kidneyresearchuk.org
- Polycystic Kidney Disease (PKD) Charity UK, 0300 111 1234, www.pkdcharity.org.uk
- Y Ffederasiwn Arenau Cenedlaethol, 0845 601 0209, www.kidney.org.uk

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-1563-7